

Y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta
23 Ionawr 11:00 – 15:30
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Caerdydd
Crynodeb o'r cyfarfod

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru (LIC) groeso i'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, gan roi gwahoddiad iddynt eu cyflwyno'u hunain o amgylch y bwrdd.

2. Papur 1 – Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf (17 Hydref)

Cytunodd y grŵp ar gofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf (17 Hydref 2019) yn ei gyfanrwydd. Bellach, caiff y cofnodion a'r camau gweithredu hyn eu hystyried fel y fersiwn derfynol.

3. Trosolwg o'r Bil a'r diweddaraf yn ei gylch

Cyflwynodd LIC drosolwg a diweddariad o'r Bil a'r Grwpiau Gweithredu cysylltiedig.

Y Bil

Dywedodd LIC fod y drafodaeth Cyfnod 4, sef y cyfnod olaf yn y Senedd, i fod i gael ei chynnal ar 28 Ionawr. Pe bai'r Bil yn cael ei basio yn ystod Cyfnod 4, ni fyddai'n dod yn Ddeddf hyd nes iddo gael Cydsyniad Brenhinol, a disgwylid y byddai hynny'n digwydd ym mis Mawrth.

Y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Weithredu

Cyflwynodd LIC Adroddiad ar y Prif Bwyntiau: Gweithredu (Papur 2) i'r Grŵp, gan gadarnhau y bydd yr Adroddiad hwn yn eitem sefydlog ar yr agenda yn holl gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta wrth symud ymlaen.

4. Y Diweddaraf am Gyfathrebu

Cafwyd y diweddaraf am gyfathrebu'n ymwneud â'r Bil a'r ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo'.

Hefyd, cafwyd y diweddaraf am waith ffilmio diweddar y ffilm hwb **Ymateb i Ymddygiad** ar ran Dr Nicola Canale. Bydd y ffilm ar gael ar wefan 'Magu plant. Rhowch amser iddo' yn ystod mis Mawrth. Cyflwynodd arweinydd yr ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo' y diweddaraf am ganlyniadau'r arolwg diweddar o adnoddau a ddosbarthwyd ym mis Rhagfyr.

5. Papur 3 – cynllun gwaith y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta

Aeth LIC ati i gyflwyno i'r Grŵp gynllun gwaith y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta, gan gadarnhau bod y cynllun gwaith yn ddogfen weithio y gellir ei newid a'i diwygio, ynghyd ag ychwanegu camau gweithredu ati yn ystod oes y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta.

6. – Gweithdai

Holltwyd y Grŵp yn dri gweithdy er mwyn trafod y canlynol:

Gweithdy 1 – trafod darpariaeth rianta i ategu'r Bil a thu hwnt;

Gweithdy 2 – trafod ymgyrch gyfredol ‘Magu plant. Rhowch amser iddo’;

Gweithdy 3 – trafod ymestyn ystod oedran ‘Magu plant. Rhowch amser iddo’.

7. Adborth gan grwpiau gwaith

Cyflwynodd y Grŵp adborth byr gan y grwpiau gwaith. Cadarnhaodd LIC y gofynnir i'r Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta brawf-ddarllen y testun y bwriedir ei gynnwys mewn ymatebion drafft, sgriptiau ar gyfer ffilmiau hwb a gwaith yn ymwneud â mapio rianta a darpariaeth rianta wrth symud ymlaen.

8. Dyddiadau Cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta

Mae dyddiadau cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta ar gyfer gweddill 2020 wedi'u trefnu:

1/5/2020

15/7/2020

6/10/2020

Eitem 9 ar yr agenda. Sylwadau i Gloi ac Unrhyw Fater Arall

Diolchodd y ddau Gadeirydd i bawb am fynychu.